# <u>Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Argyfyngau Sifil yng Nghymru:</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad sy'n cydnabod y gydnabyddiaeth a roddodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r ymatebwyr argyfyngau sifil am reoli digwyddiadau diweddar yng Nghymru. Cynigiwn yr ymateb canlynol i'r 14 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad:

**<u>Argymhelliad 1</u> - Rydym yn nodi dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio gwella ei dyletswyddau statudol o ran cydgysylltu a chynllunio ar gyfer argyfyngau sifil. Rydym yn argymell bod yn rhaid i unrhyw bwerau gweithredol newydd i Weinidogion Cymru gynnwys dyletswydd statudol i fonitro perfformiad ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau. (Tudalen 18)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes da o ymgymryd â gwaith amlasiantaeth effeithiol yn ystod argyfyngau sifil sy'n seiliedig ar y cydweithredu a'r cydweithio agos sy'n bodoli rhwng y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG ac asiantaethau ymateb eraill. Prin iawn yw pwerau ffurfiol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag argyfyngau sifil, ond mae'n chwarae rôl arwain a chydweithredu de facto a gydnabyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad ar 'Argyfyngau Sifil yng Nghymru'. Credwn y byddai trosglwyddo'r swyddogaethau Gweinidogol a nodir yn Rhan 1 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ynghyd â throsglwyddo'r holl adnoddau angenrheidiol, yn cydnabod rôl de facto Gweinidogion Cymru ac yn gwneud atebolrwydd yn fwy eglur. Dyma pam ein bod yn ceisio sicrhau'r swyddogaethau gweithredol hyn drwy Ran Dau Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru a ddisgwylir ym mis Mawrth 2014.

**<u>Argymhelliad 2</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd yn benodol yn y dyfodol i ddatganoli rhagor o bwerau deddfu i Gymru. (Tudalen 19)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Yn y corff o dystiolaeth a ddarparwyd i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr achos dros drosglwyddo'r swyddogaethau gweithredol a nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl i Weinidogion Cymru. Byddwn yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol os bydd angen gwneud hynny.

**<u>Argymhelliad 3</u> - Rydym yn nodi dymuniad Llywodraeth Cymru i geisio 'trosglwyddo'r adnoddau gofynnol' cyn ceisio trosglwyddo swyddogaethau ychwanegol Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 o Lywodraeth y DU. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r adnoddau hynny sydd eu hangen i gyflawni dyletswyddau o'r fath cyn i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo. (Tudalen 19)**

**Ymateb:** ***Derbyniwyd***

Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo adnoddau wrth drosglwyddo swyddogaethau eisoes wedi'u nodi ym mholisi Datganiad Cyllid Trysorlys EM. Pan ddaw'r amser, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â Thrysorlys EM.

**<u>Argymhelliad 4</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn sicrhau bod holl ymatebwyr Categori Un yn gyson yn y modd y maent yn rhoi Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar waith a bod eu perfformiad yn cael ei fonitro a'i graffu arno'n rheolaidd. (Tudalen 21)**

**Ymateb:** ***Derbyniwyd yn Rhannol***

Er ein bod yn derbyn bod angen cyflawni dyletswyddau mewn ffordd gyson, rydym yn cydnabod, fel y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ar hyn o bryd, mai'r ymatebwyr Categori Un eu hunain sy'n gyfrifol yn y lle cyntaf am fonitro perfformiad a chraffu arno. Mae Llywodraeth y DU yn dibynnu ar arfer da presennol ym maes rheoli perfformiad ac ar gyrff archwilio a rheoleiddio sefydledig ar draws y sefydliadau Categori Un a Dau i asesu perfformiad. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn dibynnu ar bob ymatebydd Categori Un, fel aelodau o'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, i gymryd perchenogaeth a chyfrifoldeb dros ei berfformiad a chefnogi ei aelodau a'i bartneriaid.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl i fonitro a gorfodi. Gweinidogion y DU sy'n gyfrifol am wneud hyn ar hyn o bryd a gallant ofyn am wybodaeth am weithgarwch ymatebwyr a'r modd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf ac esboniad ohonynt.

Gan nad oes ganddi'r pwerau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid i annog adolygiadau cymheiriaid ac arfer da ym maes rheoli perfformiad. Mae'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn cynnal adolygiadau cymheiriaid o berfformiad ei gilydd yn erbyn y set disgwyliadau a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet a chynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn ystod 2011. Cynhelir rhagor o adolygiadau erbyn mis Ebrill 2014 ar y thema protocolau actifadu. Drwy'r ymrwymiadau a wnaed o dan y compact ar gyfer newid i ddarparu gwasanaethau cynllunio at argyfwng llywodraeth leol a gwasanaethau cynllunio at argyfwng amlasiantaeth yn rhanbarthol yng Nghymru, bydd mwy o gyfle i gydweithredu mwy. Bydd hyn yn arwain at fwy o gysondeb o ran y modd y cyflawnir dyletswyddau wrth i sefydliadau gydweithio'n agosach fel timau rhanbarthol.

Wrth geisio sicrhau swyddogaethau gweithredol o dan y Ddeddf, teimla Llywodraeth Cymru y bydd mewn sefyllfa well i arfer y pwerau monitro yng Nghymru er mwyn sicrhau bod ymatebwyr Categori Un yn perfformio mewn ffordd gyson. Yn y byrdymor, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Swyddfa'r Cabinet i ystyried sut y gellir monitro perfformiad yn well ond, yn y pen draw, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir gwneud gwelliannau mwy sylweddol drwy ddatganoli swyddogaethau gweithredol a'i gwneud yn bosibl i ddatblygu trefniadau monitro a chraffu mwy lleol yng Nghymru.

**<u>Argymhelliad 5</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllidebau cynllunio at argyfyngau sifil yn unol â risgiau cysylltiedig. (Tudalen 23)**

**Ymateb:** ***Heb ei Dderbyn***

Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn gosod dyletswydd asesu risg ar bob ymatebydd Categori Un ac yn datgan y dylai'r asesiad hwnnw gael ei ddefnyddio i osod sail resymegol ar gyfer blaenoriaethu amcanion a rhaglenni gwaith a dyrannu adnoddau.

Yr asiantaethau ymateb eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau er mwyn bodloni gofynion cynllunio at argyfwng. Mae arian ar gyfer cynllunio at argyfyngau sifil wedi'i gynnwys yn y Grant Cymorth Refeniw a neilltuir i bob Awdurdod Lleol. Felly gall Awdurdodau Lleol flaenoriaethu'r modd y maent yn dyrannu arian mewn ymateb i'r hyn y maent yn ei wybod am y risgiau a'r blaenoriaethau lleol a nodwyd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol ymateb i newidiadau yn y proffil risg.
Bydd trefniadau archwilio'r sefydliadau eu hunain yn ystyried pa un a ddefnyddir adnodddau mewn ffordd ddigonol, mewn ffordd gosteffeithiol neu'n unol â'r risgiau.

Mae Cynllun Cymorth Ariannol Brys (Cynllun Belwin gynt) yn ôl disgresiwn yn bodoli i roi cymorth ariannol arbennig i Awdurdodau Lleol (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub a'r heddlu) sy'n gwneud gwaith uniongyrchol mewn ymateb i argyfyngau mawr.

**<u>Argymhelliad 6</u> - Rydym yn argymell y dylai symud at bedwar model rhanbarthol gwahanol ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o'r gymuned gydnerth oresgyn nifer o heriau, yn cynnwys rhwystrau diwylliannol. (Tudalen 26)**

**Ymateb:** ***Derbyniwyd***

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod arwydd clir bod 'ymdrechion yn cael eu gwneud i wella'r ffordd y mae'r gymuned sy'n ymateb i argyfyngau yn cynllunio at argyfyngau sifil ac yn eu rheoli'. Mae'r gwaith a wneir ar hyn o bryd ledled Cymru o dan y Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru i adolygu sut y byddwn yn darparu gwasanaethau brys yn y dyfodol yn dangos parodrwydd pob asiantaeth ymateb i geisio gwella'n barhaus a chwilio am ffyrdd o gydweithio mor effeithiol â phosibl o dan amodau economaidd anodd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen goresgyn nifer o heriau a rhwystrau diwylliannol cyn y gellir gwneud unrhyw newidiadau i arferion. Yn y rhan gyntaf o ymrwymiad y Compact, mae grwpiau gorchwyl a gorffen yn ardal pob Fforwm Lleol Cymru Gydnerth wedi mynd ati i rannu Awdurdodau Lleol yn rhanbarthau. Mae pob grŵp gorchwyl a gorffen wedi llunio achos busnes ynghyd â model rhanbarthol dewisol ar gyfer gwaith rhanbarthol sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol a'r ddealltwriaeth nad yw un model o reidrwydd yn addas i bawb. Wrth ddatblygu'r modelau mae'r Awdurdodau Lleol wedi cadw llawer o'r arferion da sy'n bodoli eisoes ym maes cydweithredu ac wedi'u cynnwys yn eu trefniadau

rhanbarthol. Mae'r achosion busnes wedi amlygu manteision y modelau rhanbarthol dewisol. Er mwyn sicrhau y caiff y manteision hyn eu cyflawni, bydd angen rheoli risgiau a goresgyn rhwystrau. Mae system ar waith i fonitro i ba raddau y caiff y manteision hyn eu cyflawni.  Caiff dull tebyg o weithredu ei fabwysiadu i gyflawni'r ail ran o ymrwymiad y Compact, sef gwneud gwaith cynllunio amlasiantaeth fesul rhanbarth.

**<u>Argymhelliad 7</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio i holl ymatebwyr Categori Un a Chategori Dau pa mor bwysig yw hunan-asesu cywir, yn enwedig pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau Set Disgwyliadau Swyddfa'r Cabinet. (Tudalen 30)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i bwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r Set Disgwyliadau ddiwygiedig fel rhan o'u proses hunan-asesu barhaus, sydd hefyd yn cynnwys y broses adolygu cymheiriaid sydd ar waith rhwng Fforymau Lleol Cymru Gydnerth fel y nodir yn argymhelliad 4 uchod.

Cyhoeddwyd y Set Disgwyliadau gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2010. Mae'n cael ei diwygio ar hyn o bryd a chaiff ei hailgyhoeddi ym mis Awst.

Nodir dyletswyddau ymatebwyr yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, a ategir gan ganllawiau statudol yn y ddogfen 'Emergency Preparedness'. Hon yw'r ddogfen allweddol y dylai pob ymatebydd fod yn gyfarwydd â hi.  Yn ogystal â diweddaru'r setiau disgwyliadau, mae Swyddfa'r Cabinet wrthi'n ystyried sut i ddwyn ynghyd ganllawiau perthnasol, adnodd hunan-asesu newydd, a'r adnodd a ddarparwyd gan Arolwg Galluoedd Cenedlaethol 2014 mewn ffordd mor hygyrch â phosibl er mwyn galluogi sefydliadau i gynnal hunan-asesiadau effeithiol.

**<u>Argymhelliad 8</u> - Rydym yn argymell bod cyngor ar sut i ddefnyddio'r Set Disgwyliadau yn effeithiol yn elfen allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i swyddogion cydnerthu yn y dyfodol a bod y defnydd ohono'n cael ei brofi'n rheolaidd fel rhan o ymarferion ar gyfer argyfyngau sifil. (Tudalen 30)**

**Ymateb: *Heb ei Dderbyn***

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn eu hysbysu ynghylch y Set Disgwyliedig ddiwygiedig a phwysigrwydd ei defnyddio wrth hunan-asesu. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig am y Set Disgwyliadau. Erys y cyfrifoldeb yn nwylo Swyddfa'r Cabinet sy'n derbyn y byddai'n fuddiol codi ymwybyddiaeth ohoni. Nid oes angen hyfforddiant penodol i gymhwyso'r Set Disgwyliadau oherwydd mae gweithio drwy'r Set Disgwyliadau a'r deunyddiau cymorth ychwanegol a ddarperir gan Swyddfa'r Cabinet yn broses syml i ymarferwyr yn y maes argyfyngau sifil. Mae'r Set Disgwyliadau yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau cynllunio yn hytrach na gweithgareddau ymateb neu adfer. Fel y cyfryw, ni chaiff ei defnyddio fel rhan o gylch gwaith arferol ymarferion ymateb i argyfyngau sifil.

**<u>Argymhelliad 9</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Fforwm Cymru Gydnerth i ddatblygu cyfres o gymwyseddau ar gyfer swyddogion cydnerthu. Dylid rhoi'r cymwyseddau hyn ar waith yn gyson ledled Cymru. (Tudalen 30)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio drwy Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru i ganfod cyfleoedd i gydgysylltu cyfleoedd dysgu a datblygu ar draws y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a phartneriaid cydnerthu yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys datblygu Aur Cymru, sef rhaglen dysgu a datblygu i aelodau'r Grŵp Cydgysylltu Strategol. Mae'r rhaglen yn defnyddio senarios, hwyluswyr a chanolfannau hyfforddi lleol ac mae'n enghraifft o gydweithredu ar draws y gymuned cydnerthu yng Nghymru i ddatblygu cynnyrch i'w ddarparu gydag adnoddau lleol er mwyn diwallu anghenion lleol. Cynhaliwyd pedwar cwrs ledled Cymru rhwng Chwefror a Mawrth 2013 ar gyfer cyfanswm o 75 o gyfranogwyr ac mae ton arall o gyrsiau wedi'i chynllunio yn ardaloedd y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth rhwng Ionawr a Chwefror 2014. Gyda chymorth gan Academi Cymru, sef y ganolfan ragoriaeth ar gyfer sgiliau arwain yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, mae unedau dysgu achrededig wedi'u datblygu fel rhan o'r rhaglen.

Mae Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru yn defnyddio profiad Aur Cymru i ddatblygu pecyn dysgu a datblygu cyffredin ar gyfer y lefel reoli dactegol neu'r lefel reoli Arian. Sefydlwyd gweithgor i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Mae'r Grŵp hwn yn dwyn ynghyd arweinwyr hyfforddi ac ymarfer pob Fforwm Lleol Cymru Gydnerth yng Nghymru er mwyn hwyluso cydweithio ledled Cymru i ddatblygu hyfforddiant ac ymarferion a chymhwyso dysgu cyson sy'n seiliedig ar gymwyseddau.

**<u>Argymhelliad 10</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â'r gymuned cydnerthu leol i gasglu'r arfer gorau o ran rheoli'n effeithiol oblygiadau rhwydweithiau cymdeithasol yn ystod digwyddiadau brys a sicrhau ei fod yn cael ei rannu ymhlith y fforymau lleol Cymru Gydnerth. (Tudalen 32)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith drwy Grŵp Rhybuddio a Llywio Cymru, sy'n datblygu fframwaith gyda'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac arweinwyr cyfathrebu yr ymatebwyr argyfwng sy'n casglu arfer gorau ac yn darparu dull rhybuddio a llywio amlasiantaeth cyson.

Mae'r fframwaith yn cynnwys adran ar gyfryngau cymdeithasol sy'n cydnabod y gellir eu defnyddio i fesur yn gyflym ymateb y cyhoedd a'r cyfryngau, datblygu negeseuon ymateb a mynd i'r afael yn gynnar â chamwybodaeth, sïon a thybiaethau. Pwysleisir yr angen i asiantaethau partner fonitro a rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Caiff y Fframwaith, a fydd yn ddogfen weithio, ei gymeradwyo erbyn mis Medi 2013. Grwpiau Rhybuddio a Llywio'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a fydd yn gyfrifol am weithredu'r fframwaith fel rhan o'u cynlluniau ymateb, a theilwra'r trefniadau yn unol ag amgylchiadau lleol lle bo angen.

**<u>Argymhelliad 11</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cynrychiolaeth cyrff y sector gwirfoddol ar Fforwm Cymru Gydnerth. Hefyd dylai'r rheini sy'n cynrychioli cyrff gwirfoddol allu hawlio treuliau mewn perthynas â'r ffaith eu bod yn cymryd rhan yn y fforwm. (Tudalen 34)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Cwblhawyd. Yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2013, ystyriodd Fforwm Cymru Gydnerth bapur a gyflwynwyd iddo gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar rôl y Trydydd Sector mewn argyfyngau sifil yng Nghymru a nododd gynigion ar gyfer cynrychiolaeth ac ymgysylltiad y Trydydd Sector ar lefel strategol ym maes cynllunio at argyfwng. Cytunodd y Fforwm â'r argymhellion canlynol a gyflwynwyd gan CGGC:

> <u>Argymhelliad 1</u> – Dylid parhau i ymgysylltu â'r Trydydd Sector yn lleol yn bennaf a dylid annog Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac asiantaethau ymateb unigol i gynnal ac atgyfnerthu'r cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli.
>
> <u>Argymhelliad 2</u> - Dylai'r Trydydd Sector gael ei gynrychioli ar Fforwm Cymru Gydnerth a Thîm Partneriaeth Cymru Gydnerth gan y Groes Goch Brydeinig (BRC) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC); gyda BRC yn arwain ar ymateb a CGGC yn arwain ar adfer.
>
> <u>Argymhelliad 3</u> – Dylai'r Trydydd Sector gael ei gynrychioli ar Grŵp Dysgu a Datblygu Cymru er mwyn sicrhau y caiff y sector ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddi ac ymarfer.
>
> <u>Argymhelliad 4</u> – Yn unol â'r amserlen bresennol, dylai Cynhadledd Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ar 27 Mehefin gynnwys sesiynau grŵp lle gellir ystyried ffyrdd o ymgysylltu â'r Trydydd Sector yn y dyfodol.
>
> <u>Argymhelliad 5</u> – Dylai Tîm Partneriaeth Cymru Gydnerth ystyried uno Grŵp Cydnerthu Cymunedol Cymru a Grŵp Cymorth Dyngarol Cymru a chynyddu cynrychiolaeth y Trydydd Sector ar y cyd-grŵp. Dylid hefyd ystyried penodi rhywun o'r Trydydd Sector yn gadeirydd ar y cyd-grŵp.

Yn unol ag Argymhelliad 4 uchod ac er mwyn helpu i hyrwyddo trefniadau ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yng Nghymru, hwylusodd y Groes Goch Brydeinig ddwy sesiwn drafod yng Nghynhadledd Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ar 27 Mehefin a bydd yn cyfarfod yn fwy na thebyg â Llywodraeth Cymru a CGGC cyn diwedd yr haf i roi'r gwersi a ddysgwyd ar waith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ad-dalu treuliau'r rhai sy'n mynychu Fforwm Cymru Gydnerth. Hyd yma mae'r Groes Goch Brydeinig a CGGC wedi cytuno na fyddant yn hawlio treuliau am fynychu Fforwm Cymru Gydnerth a chymryd rhan ynddo. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa ei hadolygu'n barhaus.

**<u>Argymhelliad 12</u> - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir nad oes unrhyw rwystrau i atal aelodau o gyrff y sector gwirfoddol rhag cadeirio cyfarfodydd gweithgorau cynllunio at argyfwng. (Tudalen 34)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Mae Llywodraeth Cymru ar ddeall nad oes unrhyw rwystrau ar hyn o bryd i atal aelodau o gyrff y sector gwirfoddol rhag cadeirio cyfarfodydd gweithgorau cynllunio at argyfwng, ac mae profiad Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn cefnogi'r farn hon. Er enghraifft, bu aelod o'r Groes Goch Brydeinig yn is-gadeirydd y Grwpiau Cymorth Dyngarol yn Nyfed Powys a Gogledd Cymru ac nid oes rheswm pam na allant gyflawni rôl y cadeirydd pe bai angen iddynt wneud hynny.

Un o'r argymhellion y cytunodd Fforwm Cymru Gydnerth arno ar 19 Mehefin oedd y dylid ystyried cael aelod o'r Trydydd Sector i gadeirio Grŵp Cydnerthu Cymunedol a Chymorth Dyngarol ar y cyd ar lefel Cymru gyfan. Trafodir hyn gyda Llywodraeth Cymru cyn diwedd yr haf.

**Argymhelliad 13 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Fforwm Cymru Gydnerth i ddatblygu memorandwm dealltwriaeth rhwng fforymau lleol Cymru Gydnerth a'r sector gwirfoddol o ran ymateb i argyfyngau sifil. (Tudalen 34)**

**Ymateb: *Derbyniwyd yn Rhannol***

Mae angen i'r sector gwirfoddol ac asiantaethau ymateb ymgysylltu â'i gilydd ar lefel leol yn bennaf. Dylid gadael i'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a sefydliadau unigol benderfynu a oes angen llunio memorandwm dealltwriaeth ffurfiol ar gyfer eu cydberthynas â'r sefydliadau sector gwirfoddol y maent yn cydweithio â hwy.

Mae gan Awdurdodau Lleol femoranda dealltwriaeth ffurfiol â sefydliadau yn y sector gwirfoddol, fel Fforwm Cymru Gydnerth Gwent â'r Groes Goch Brydeinig, Ambiwlans Sant Ioan a'r Samariaid ac ati.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i'w hannog i hybu'r sector gwirfoddol i gymryd rhan mewn ymarferion hyfforddi yn eu hardaloedd a, lle bo angen, drafod â'r sefydliadau dan sylw o dan ba amgylchiadau y dylid ad-dalu costau rhesymol. Gwyddom fod sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymarfer a drefnir gan y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'u bod yn cael eu cynnwys wedi hynny mewn sesiynau dadfriffio i rannu'r gwersi a ddysgwyd.

**Argymhelliad 14 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynghori ymatebwyr Categori Un i sicrhau bod unrhyw gostau rhesymol a ysgwyddir gan gyrff y sector gwirfoddol yn ystod ymarferion hyfforddi yn cael eu had-dalu. (Tudalen 35)**

**Ymateb: *Derbyniwyd***

Pan fydd ymatebwyr Categori 1 yn cynnwys sefydliadau o'r sector gwirfoddol mewn gweithgarwch hyfforddi ac ymarfer lleol, mater i'r sefydliadau hynny a'r cyrff sector gwirfoddol dan sylw fydd cytuno ar unrhyw drefniadau i ad-dalu costau rhesymol. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog cyrff seilwaith y sector gwirfoddol, fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, i gymryd rhan mewn

ymarferion argyfwng er mwyn profi eu rolau wrth ymateb i argyfwng ac adfer. Lle y bo’n briodol caiff gweithgarwch o'r fath ei ystyried yn wariant cymwys o fewn y fframwaith ariannu seilwaith ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at gadeiryddion y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i'w hannog i hybu'r sector gwirfoddol i gymryd rhan mewn ymarferion hyfforddi yn eu hardaloedd a, lle bo angen, drafod â'r sefydliadau dan sylw o dan ba amgylchiadau y dylid ad-dalu costau rhesymol.